**Adroddiad Blynyddol**

Rhagfyr 2024

# PARTNERIAETH CYFAMOD LLUOEDD ARFOG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

## CEFNOGI

## CYMUNED Y LLUEODD ARFOG

*"Fel Cadeirydd Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru rydw i'n awyddus i weld y bartneriaeth yn cyflawni ar ymrwymiadau Cyfamod y Lluoedd Arfog er mwyn sicrhau bod pawb a wasanaethodd yn y gorffennol ac sy'n gwasanaethu rŵan, yn ogystal â'u teuluoedd, yn cael y gefnogaeth maen nhw'n ei haeddu."*

***Y Cynghorydd L Roberts***
*Cadeirydd Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru*
*Cefnogwr y Lluoedd Arfog Conwy*

## CYNNWYS


**1. CYFLWYNIAD**

**2. CEFNDIR**

2.1 EIN PARTNERIAETH CYFAMOD LLUOEDD ARFOG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

**3. CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG**

3.1 EIN UCHELGAIS AR Y CYD

3.2 DEDDFWRIAETH

**4. AWDURDODAU LLEOL**

**5. EIN PARTNERIAID**

**6. Y BWRDD IECHYD**

**7. SWYDDOG CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG**

7.1 GWERTHUSO HYFFORDDIANT

7.2 DATA HYFFORDDIANT

# 1. CYFLWYNIAD

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn wedi cael ei lunio gan Bartneriaeth Cyfamod Lluoedd Arfog Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae'n nodi beth sydd wedi cael ei gyflawni drwy weithio mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth - i'n helpu ni i gyflawni ein hymrwymiadau i Gyfamod y Lluoedd Arfog a chefnogi Cymuned ein Lluoedd Arfog.



# 2. CEFNDIR

## 2.1 PARTNERIAETH CYFAMOD LLUOEDD ARFOG RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU

Yn 2014, fe ddaeth y chwe Awdurdod Lleol sef Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam yn cynnwys y bwrdd iechyd lleol (Betsi Cadwaladr) ynghyd i ffurfio Fforwm Lluoedd Arfog Gogledd Cymru. Fe sefydlwyd y dull cydweithredol yma i gynorthwyo â pharhad y gefnogaeth a gwasanaethau i aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog yng ngogledd Cymru.

Trwy greu'r bartneriaeth hon a chael cefnogaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, bu modd i bob Awdurdod Lleol a bwrdd iechyd sicrhau cyllid ar gyfer Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog Rhanbarthol (SCLlA). Eu gwaith nhw'n benodol ydi cryfhau addewidion cyfamod lleol.

Yn sgil cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru, crëwyd rôl SCLlA ymroddedig i Awdurdodau Lleol i gefnogi'r gwaith o adolygu polisïau mewnol, diwygio mynediad i wyliau ychwanegol i filwyr wrth gefn, hyrwyddo swyddi gyda *Career Transition Partnership* a *Forces Family's Jobs*.

Mae FfLlAGC yn parhau i weithio'n agos gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, rhannu arfer da, codi ymwybyddiaeth a chynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gymuned ein Lluoedd Arfog. Mae enghreifftiau'n cynnwys, arwain Fforymau Lluoedd Arfog i gefnogi darparu deddfwriaeth newydd, cefnogi canolbwyntiau Cymunedol Lluoedd Arfog lleol a chynorthwyo sefydliadau tra'n chwilio am gyllid drwy Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog.

# 3. CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl na ddylai'r rhai sy'n gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, boed yn Rheolaidd neu Wrth Gefn, a'u teuluoedd, wynebu unrhyw anfantais o gymharu â dinasyddion eraill o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a masnachol.

Mae'n ddatganiad o fwriad ac mae'n dibynnu ar y bobl, cymunedau a busnesau i'w gefnogi er mwyn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi ymuno â Chyfamod y Lluoedd Arfog ac mae cyfamodau lleol wedi cael eu llunio, er mwyn adlewyrchu'r anghenion ar draws y DU.

Mae pob Awdurdod Lleol yn ein rhanbarth wedi llunio cyfamod lleol sydd yn ceisio cyd-fynd â'r cyfamod cenedlaethol ac annog cefnogaeth leol. Mae gan yr holl gyfamodau yma flaenoriaethau tebyg, ond maent wedi cael eu haddasu i gynnwys anghenion y gymuned leol. Fel partneriaeth, rydym ni'n rhannu uchelgeisiau cyffredin tuag at y Cyfamod cenedlaethol.

## 3.1 EIN HUCHELGAIS AR Y CYD

### Gyda'n gilydd fel partneriaeth ranbarthol, rydym ni'n

Sicrhau bod gan y CLlA fynediad at yr un safon o dai cymdeithasol a mynediad at lety rhent preifat â'r boblogaeth gyffredinol.

Sicrhau bod plant aelodau o'r Lluoedd Arfog yn cael yr un mynediad at addysg ag unrhyw breswylydd lleol arall. Darparu mynediad at hyfforddiant, addysg a sgiliau i gefnogi cyn-filwyr i'w cynorthwyo i ddod o hyd i gyflogaeth addas

Galluogi'r CLlA i fwynhau yr un safon a mynediad at ofal iechyd a darparu triniaethau blaenoriaeth i gyn-filwyr lle mae'n ymwneud â chyflwr yn sgil eu gwasanaeth, yn amodol ar angen clinigol

Rhoi cymorth a chyngor i bersonél y lluoedd arfog i'w cynorthwyo i symud o fod yn y lluoedd arfog i gymunedau lleol, a sicrhau bod ganddynt fynediad i'r un budd-daliadau lles ag unrhyw breswylwyr lleol arall

# 3. CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

## 3.2 DEDDFWRIAETH

**CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG:**
Mae Cyfamod y Lluoedd Arfog yn addewid gan y genedl y dylai Cymuned y Lluoedd Arfog gael eu trin yn deg heb wynebu unrhyw anfantais tra'n defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a masnachol, a dylid gwneud darpariaeth arbennig mewn achosion priodol i'r rhai sydd wedi aberthu'r mwyaf. Fe sefydlwyd y Cyfamod yn ei ffurf bresennol yn 2011 ac ers hynny, mae miloedd o sefydliadau gwahanol - yn cynnwys busnesau, awdurdodau lleol, prifysgolion ac elusennau - wedi dewis arwyddo addewid i anrhydeddu'r Cyfamod a chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog. Yn sgil hyn, fe fu yna nifer o enghreifftiau o arfer da ar draws y DU i gael gwared, lliniaru neu atal digwyddiadau o anfantais rhag digwydd.

**DYLETSWYDD CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG:**
Gan adeiladu ar y cynnydd da hwn, fe ddiwygiodd Deddf y Lluoedd Arfog 2021 Ddeddf y Lluoedd Arfog 2006 i greu'r rhwymedigaeth gyfreithiol ganlynol ar gyrff penodol ym mhedair gwlad o'r DU. Dyma Ddyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog "Pan fydd corff penodedig yn arfer swyddogaeth berthnasol, mae'n rhaid iddo roi sylw priodol i : (a) rhwymedigaethau unigryw, a chyfaddawdau, y Lluoedd Arfog; (b) yr egwyddor ei bod hi'n ddymunol dileu anfanteision i bobl Gwasanaeth yn deillio o fod yn aelod, neu'n gyn-aelod, o'r Lluoedd Arfog; ac (c) yr egwyddor y gellid cyfiawnhau darpariaeth arbennig i bobl Gwasanaeth oherwydd yr effeithiau sy'n deillio o fod yn aelodau, neu'n gyn-aelodau, o'r Lluoedd Arfog".

Mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol hon yn berthnasol i gyrff penodol boed nhw wedi arwyddo addewid y Cyfamod neu beidio

### Cyrff Penedol sy'n destun Dyletswydd y Cyfamod

**Cymru**

- Awdurdodau lleol
- Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir
- Byrddau Iechyd Lleol, Awdurdodau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG

# 3. CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG

## 3.2 DEDDFWRIAETH

### Swyddogaethau Perthnasol yng Nghwmpas Dyletswydd y Cyfamod

| | |
|---|---|
| **Gofal Iechyd** | • Darpariaeth gwasanaethau<br>• Cynllunio ac ariannu<br>• Cydweithredu rhwng cyrff a gweithwyr proffesiynol<br><br>Mae'r swyddogaethau gofal iechyd hyn o fewn cwmpas y Ddyletswydd yn y lleoliadau canlynol:<br>• Gwasanaethau Gofal Sylfaenol y GIG, gan gynnwys meddygfeydd teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddion y GIG, gwasanaethau optometreg y GIG a gwasanaethau sgrinio iechyd y cyhoedd<br>• Gwasanaethau Gofal Eilaidd y GIG, gan gynnwys gofal brys ac argyfwng, gwasanaethau ysbyty a chymunedol, gofal arbenigol, gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anghenion ychwanegol (fel bo'n berthnasol)<br>• Gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan yr awdurdod lleol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd rhywiol a gwasanaethau camddefnyddio cyffuriau ac alcohol |
| **Addysg** | • Derbyniadau<br>• Cyrhaeddiad addysgol a'r cwricwlwm<br>• Lles y Plentyn<br>• Cludiant<br>• Presenoldeb<br>• Cefnogaeth ag anghenion ychwanegol<br>• Defnyddio cyllid Premiwm Disgybl Gwasanaeth (Lloegr yn unig)<br>Mae'r swyddogaethau addysg hyn o fewn cwmpas y Ddyletswydd mewn lleoliadau addysg gorfodol, hynny yw, cynradd, uwchradd, ac ar gyfer Lloegr yn unig, addysg bellach orfodol. Nid yw'r Ddyletswydd yn cwmpasu meithrin (addysg blynyddoedd cynnar), addysg uwch na lleoliadau addysg oedolion gwirfoddol eraill |
| **Tai** | • Polisi dyrannu ar gyfer tai cymdeithasol<br>• Strategaethau tenantiaeth (Lloegr yn unig)<br>• Digartrefedd<br>• Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl |

# 4. AWDURDODAU LLEOL

Mae gogledd Cymru yn cynnwys chwe Awdurdod Lleol ac mae pob un wedi arwyddo Cyfamod y Lluoedd Arfog ac yn cefnogi Swyddog Cyswllt y Lluoedd Arfog Rhanbarthol i gyflawni eu rôl. Isod y mae rhestr o holl Gefnogwyr y Lluoedd Arfog a'r Swyddogion Arweiniol sydd yn cefnogi gweithredu'r Cyfamod a deddfwriaeth berthnasol sydd yn effeithio ar Gymuned y Lluoedd Arfog.

| **Awdurdod** | **Pencampwr** | **Swyddog Arweiniol** |
|---|---|---|
| **Ynys Môn** | Cynghorydd Haynes<br>GlynHaynes@ynysmon.llyw.cymru | Dyfan Sion<br>Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| **Conwy** | Cynghorydd Roberts<br>cllr.liz.Roberts@Conwy.gov.uk | Jodie Davies<br>*Rheolwr Gwasanaethau Tai* |
| **Sir Ddinbych** | Cynghorydd Matthews<br>Julie.Matthews@Denbighshire.gov.uk | Gary Williams<br>*Cyfarwyddwr Corfforaethol* |
| **Sir y Fflint** | Cynghorydd Evans<br>David.evans@Flintshire.gov.uk | Fiona Mocko<br>Ymgynghorydd Polisi Strategol |
| **Gwynedd** | Cynghorydd Thomas<br>Cynghorydd.ioanthomas@Gwynedd.llyw.cymru | Delyth Williams<br>*Ymgynghorydd Cydraddoldeb* |
| **Wrecsam** | Cynghorydd Parry-Jones<br>Beverley.Parry-Jones@Wrexham.gov.uk | Alison Watkin<br>*Rheolwr Tîm Partneriaethau* |

# 4. AWDURDODAU LLEOL

Llofnodwyr y Cyfamod: **Ydi**

Cynllun Cydnabod Cyflogwr: **Amherthnasol**



- Hyfforddiant mewnol wedi'i gynnal
- Diwrnod y Llynges Fasnach
- Wedi coffáu 'D-day' trwy godi'r faner ym mhrif swyddfeydd y Cyngor ac mewn digwyddiadau lleol.
- Wedi dathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Yr Awdurdod yn parhau i gefnogi hybiau a grwpiau lleol sydd yn gweithio gyda Chymuned y Lluoedd Arfog
- Polisïau mewn Tai ac Addysg wedi'u haddasu a'u diwygio pan fo angen
- Asesiad Effaith Integredig wedi cynnwys y cwestiwn am Gymuned y Lluoedd Arfog
- Cefnogaeth barhaus i uned Cadetiaid lleol
- Yn mynychu a chefnogi digwyddiadau yn RAF y Fali







# 4. AWDURDODAU LLEOL

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Llofnodwyr y Cyfamod: **Ydi**

Cynllun Cydnabod Cyflogwr: **Aur**



- Hyfforddiant mewnol wedi'i gynnal
- Diwrnod y Llynges Fasnach
- Wedi dathlu Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn
- Wedi dathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Ysgol Pen y Bryn wedi cyflawni statws **Aur** gan SSCE fel Ysgol sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog
- Yr Awdurdod yn parhau i gefnogi canolbwyntiau a grwpiau lleol sydd yn gweithio gyda Chymuned y Lluoedd Arfog
- Polisïau mewn Tai ac Addysg wedi'u haddasu a'u diwygio pan fo angen
- Asesiad Effaith Integredig wedi cynnwys y cwestiwn am Gymuned y Lluoedd Arfog
- Cefnogaeth barhaus i uned Cadetiaid lleol








# 4. AWDURDODAU LLEOL

Llofnodwyr y Cyfamod: **Ydi**

Cynllun Cydnabod Cyflogwr: **Aur**

- Hyfforddiant mewnol wedi’i gynnal
- Diwrnod y Llynges Fasnach
- Wedi dathlu Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn
- Wedi dathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Polisïau mewn Tai ac Addysg wedi’u haddasu a'u diwygio pan fo angen
- Asesiad Effaith Integredig wedi cynnwys y cwestiwn am Gymuned y Lluoedd Arfog
- Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar waith ar gyfer bob swydd ar draws yr Awdurdod
- Cefnogaeth barhaus i unedau Cadetiaid lleol (yn cynnwys grantiau)






# 4. AWDURDODAU LLEOL

Cyngor Sir y Fflint / Flintshire County Council

Llofnodwyr y Cyfamod: **Ydi**

Cynllun Cydnabod Cyflogwr: **Aur**

- Hyfforddiant mewnol wedi'i gynnal
- Archwiliad Tai o Gyfamod y Lluoedd Arfog wedi'i gynnal
  - Data wedi'i rannu gyda Llywodraeth Cymru
- Fe ymwelodd Sioe Deithiol yr RAF â'r rhanbarth i rannu hanes yr RAF yn Sir y Fflint
- Codi'r Lluman Coch ar gyfer Diwrnod y Llynges Fasnachol
- Wedi dathlu Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn
- Wedi dathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Forces Fitness wedi ymweld â sawl ysgol a phlant y Lluoedd Arfog a'r rhai nad ydynt yn blant y Lluoedd Arfog yn elwa o'r ymweliad a'r gweithgareddau
- Yr Awdurdod yn parhau i gefnogi Caffi NAAFI sy'n cael ei ddefnyddio fel man canolog i nifer o gyn-filwyr lleol
- Polisïau mewn Tai ac Addysg wedi'u haddasu a'u diwygio pan fo angen
- Asesiad Effaith Integredig wedi cynnwys y cwestiwn am Gymuned y Lluoedd Arfog
- Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar waith ar gyfer cyn-filwyr sydd yn cyrraedd y meini prawf hanfodol
- Cefnogaeth barhaus i unedau Cadetiaid lleol (yn cynnwys darparu grantiau)









## 4. AWDURDODAU LLEOL

Llofnodwyr y Cyfamod: **Ydi**

Cynllun Cydnabod Cyflogwr: **Amherthnasol**

- Hyfforddiant mewnol wedi'i gynnal
- Diwrnod y Llynges Fasnach
- Wedi dathlu Diwrnod y Milwyr Wrth Gefn
- Wedi dathlu Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Yr Awdurdod yn parhau i gefnogi canolbwyntiau a grwpiau lleol sydd yn gweithio gyda Chymuned y Lluoedd Arfog
- Polisïau mewn Tai (yn cynnwys cymal A157) ac Addysg wedi'u haddasu a'u diwygio pan fo angen
- Asesiad Effaith Integredig wedi cynnwys y cwestiwn am Gymuned y Lluoedd Arfog
- Cefnogaeth barhaus i uned Cadetiaid lleol
- Presennoldeb digwyddiad coffáu 'D-Day' yng Nghaernarfon









# 4. AWDURDODAU LLEOL

Llofnodwyr y Cyfamod: **Ydi**

Cynllun Cydnabod Cyflogwr: **Aur**











- Hyfforddiant mewnol wedi'i gynnal
- Wedi cefnogi Gwasanaeth Carolau'r Lluoedd Arfog gan godi arian ar gyfer Scottys Little Soldiers
- Wedi hwyluso a chefnogi hanner Marathon Woody's Lodge
- Wedi sefydlu Canolbwynt Cymunedol newydd y Lluoedd Arfog mewn partneriaeth gyda Chlwb Pêl-droed Wrecsam a Woody's Lodge
- Wedi cymryd rhan mewn cyfarfodydd rheolaidd yng Ngharchar EF Y Berwyn yn cefnogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog.
- Rhyddid y Ddinas wedi'i roi i HMS Dragon
- Codi'r Faner ar gyfer Diwrnod y Llynges Fasnach
- Parhau i gefnogi unedau Cadetiaid lleol
- Asesiad Effaith Integredig wedi cynnwys y cwestiwn am Gymuned y Lluoedd Arfog
- Cynllun Gwarantu Cyfweliad ar waith ar gyfer bob swydd ar draws yr Awdurdod.
- Cefnogi gorymdaith Cymdeithas Y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig
- Gorymdaith a digwyddiadau coffáu 'D-day'
- Ymweliad gan Frenin Charles III a Brenhines Camilla
- Mis y Plentyn Milwrol
- Wedi cefnogi gweithdy Cynghrair Cyn-filwyr Benywaidd

## 5. EIN PARTNERIAD

Mae FfLlAGC yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill a phartneriaid allanol er mwyn sicrhau bod anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog yn cael eu bodloni. Mae gwaith ein partneriaid yn amhrisiadwy nid yn unig i helpu i gefnogi ein Lluoedd Arfog ond mae'n cynorthwyo i'w helpu nhw i integreiddio i'n cymunedau.

Mae partneriaid gwerthfawr yn gweithio'n ddiflino gydol y flwyddyn (mae'r mwyafrif yn wirfoddolwyr) a heb eu hymrwymiad i Gymuned y Lluoedd Arfog fe fyddem ni fel grŵp yn cael anhawster bodloni eu holl anghenion. Isod y mae rhywfaint o'r gwaith gwych maen nhw wedi'i wneud dros y 12 mis diwethaf.

### WOODYS LODGE

**Mannau Diogel a Chanolbwyntiau Cymunedol:**
Mae Woody's Lodge wedi parhau i ddarparu mannau diogel, tawel i gyn-filwyr i ymlacio a sgwrsio dros baned yn eu prif ganolbwynt ym Mae Colwyn. Mae safleoedd lloeren hefyd wedi cael eu sefydlu yn Y Rhyl, Caergybi a Wrecsam. Mae'r canolbwyntiau yma wedi dod yn fannau cymunedol hollbwysig lle gall cyn-filwyr ddod o hyd i gyfeillgarwch a chefnogaeth.



**Digwyddiadau wedi'u trefnu:**
Mae Woody's Lodge wedi cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau, yn cynnwys bowlio deg, pysgota, a theithiau i Normandi a'r Goedardd Gofio Genedlaethol ynghyd â digwyddiadau codi arian megis gorymdaith gyflym a reid beicio Hereford i'r Goedardd Gofio Genedlaethol. Mae'r digwyddiadau yma wedi darparu cyfleoedd hamdden ac wedi meithrin ymdeimlad o gymuned ymysg cyn-filwyr.

**Safle Gweithgareddau Awyr Agored at y Dyfodol:**
Mae darn bychan o dir y tu allan i Fetws-y-coed wedi cael ei roi am ddim i gyn-filwyr er mwyn datblygu gweithgareddau awyr agored yn y dyfodol. Fe fydd y tir yma'n golygu bod modd creu gofod penodol ar gyfer gweithgareddau awyr agored, hyrwyddo lles corfforol a rhyngweithio cymdeithasol ymysg cyn-filwyr.




**Gwasanaethau cymorth:**
Mae tîm cymorth Woody's Lodge wedi darparu cefnogaeth amhrisiadwy i gyn-filwyr a'u teuluoedd drwy eu helpu nhw i lenwi ffurflenni cais am fudd-daliadau, tai a phensiwn. Mae'r gefnogaeth hon wedi sicrhau bod cyn-filwyr a'u teuluoedd yn derbyn y lefel briodol o gefnogaeth, yn gwella safon eu bywyd a rhoi sefydlogrwydd ariannol iddynt.

# 5. EIN PARTNERIAD

## BLESMA

Mae Blesma yn aelod o COBSEO ac mae wedi bod yn weithgar ers dros 90 o flynyddoedd. Fe sefydlwyd bron i 18,000 o elusennau ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, ac mae tua 10 ohonynt yn dal i fodoli hyd heddiw. Mae Blesma yn un ohonynt.

*Mae Blesma yn ymroddedig i gynorthwyo milwyr a chyn-filwyr sydd wedi dioddef anafiadau megis colli rhannau o'r corff neu methu â defnyddio rhannau o'r corff, neu golli llygad neu golli eu golwg. Rydym ni'n gweithio'n ddiflino i'n Haelodau pan dydi'r rhyfeloedd sydd wedi effeithio ar eu bywydau ddim yn cael sylw ym mhenawdau'r wasg bellach. Ers 1932, ni ydi'r unig elusen Filwrol sydd yn cefnogi cyn-filwyr sydd wedi colli rhannau o'r corff ar hyd eu bywydau.*

**Cymrodoriaeth**

Mae aelodau wedi helpu ei gilydd ers dyddiau cyntaf Blesma. Mae hyn yn ganolbwynt i'r hyn rydym ni'n ei wneud ac rydym yn defnyddio ein gwybodaeth am brofiadau ein haelodau, a'u hanafiadau trawmatig, adferiad a sefydlogrwydd yn y pendraw. Nid ydi'r math yma o gymrodoriaeth yn ddigon i bawb, felly mae ein Tîm Lles yn cynnig cefnogaeth broffesiynol benodol pan fo angen hynny.

- **Prostheteg**
- **Lles, Eiriolaeth a Chyngor**
- **Grantiau**
- **Cyflogaeth**
- **Estyn Allan a Gweithgareddau Aelodau**

**Cymhwysedd Aelodaeth**

Mae Aelodaeth Arferol yn cynnwys y rhai sydd wedi colli rhannau o'r corff tra'n Gwasanaethu, a'r rhai sydd methu defnyddio rhannau o'r corff yn sgil Gwasanaethu. Mae hefyd ar agor i unrhyw un sydd methu siarad, clywed na gweld. Mae'n rhaid iddynt fod wedi Gwasanaethu yn unrhyw un o Luoedd neu Luoedd wrth Gefn/Cynorthwyol Ei Fawrhydi.

Mae Aelodaeth Gysylltiol ar agor i bob cyn-filwr sydd wedi gwasanaethu mewn unrhyw gangen o Luoedd Arfog neu Luoedd wrth Gefn/Cynorthwyol Ei Fawrhydi, sydd wedi colli rhannau o'r corff neu lygad, yn ogystal â cholli rhan o'r corff drwy ddigwyddiad trawmatig, heblaw am rai drwy achosion sy'n gysylltiedig â Gwasanaethu.

Mae Aelodaeth Gysylltiol ar agor i bawb sy'n sifiliaid sydd wedi colli rhan o'r corff, neu methu defnyddio rhan o'r corff, neu lygad yn sgil Gwasanaethu mewn rhyfel, neu weithred y gelyn neu derfysgol yn erbyn Lluoedd Ei Fawrhydi gyda'r rhai y mae'r sifiliaid yn cael eu cyflogi, neu wirfoddoli, i ddarparu cefnogaeth uniongyrchol.

**Allan yn y maes**

Fe fydd Swyddog Arwain a Chymorth Blesma yn ymweld ag Aelodau a Gweddwon yn eu cartrefi, yn y canolfannau penodol, canolbwyntiau cyn-filwyr neu mewn lleoliadau eraill yn ôl y gofyn neu i gefnogi angen blaenoriaethol. Mae Blesma Wales and West wedi cysylltu â dros 3,500 o bobl rhwng mis Ionawr 2023 a mis Rhagfyr 2024. Mae Blesma wedi cynnal 52 ymweliad â'r cartref yng Nghymru dros y 4 mis diwethaf.

**Y Tîm yng Nghymru a'r Gorllewin**

**Swyddog Arweiniol Cymorth a Lles Blesma:**

***Tom Hall MBE***

Rhif ffôn y swyddfa: 020 8548 7098

Ffôn Symudol: 07780 165085

E-bost: bsowest@blesma.org

**Estyn Allan a Gweithgareddau:**

***Jason Suller***

Rhif ffôn: 07741 744141

E-bost: outreachw@blesma.org

**Atgyfeiriadau**

Gall clinigwyr a phartneriaid gysylltu â Tom neu gyfeirio Cyn-filwyr i Blesma gan ddefnyddio ein gwefan www.blesma.org neu ddefnyddio Ffurflen Atgyfeirio Blesma Wales and West - wedi'i ddarparu ar gais drwy gysylltu â'r uchod.

# 5. EIN PARTNERIAD

## ALABARE

Mae ein gwasanaeth yng Nghymru yn darparu llety â chymorth hanfodol i gyn-filwyr digartref ar draws gogledd a de Cymru, sef y wlad gyfan. Gyda 38 o welyau dynodedig rydym wedi ymrwymo i gynnig amgylchedd sefydlog a diogel lle gall cyn-filwyr gychwyn y siwrnai tuag at ailadeiladu eu bywydau.

Mae ein gwasanaeth wedi'i ddylunio i gefnogi cyn-filwyr sydd yn wynebu amrywiaeth o broblemau yn cynnwys digartrefedd, a bod yn gaeth i alcohol, cyffuriau neu gamblo.  Mae ein tîm o weithwyr cefnogi profiadol wrth law i gynnig cymorth wedi'i deilwra, helpu pob cyn-filwr i weithio drwy eu heriau a rhoi'r sgiliau a hyder sydd ei angen arnynt i symud i fyw'n annibynnol.



Un o brif gyfansoddion ein gwasanaeth yw'n tîm '*boots on the ground*'. Mae'r fenter yn mynd y tu hwnt i sgôp traddodiadol llety â chymorth drwy roi cyfleoedd i gyn-filwyr ymgysylltu â'u cymunedau a chael profiadau newydd. Mae ein tîm yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u hanelu at fagu hyder, meithrin rhyngweithio cymdeithasol, a hyrwyddo lles corfforol a meddyliol.  Gall cyn-filwyr gymryd rhan mewn prosiectau sy'n canolbwyntio ar gymunedau megis glanhau traethau neu ymweld â chartrefi gofal lleol, sydd yn eu helpu i ailgysylltu â chymdeithas mewn ffyrdd ystyriol.  Yn ychwanegol, rydym yn cynnig gweithgareddau awyr agored megis gwersylla, cerdded a phrofiadau preswyl, sydd nid yn unig yn darparu heriau personol, ond y cyfle i feithrin gwytnwch a chyfeillgarwch gyda chyd gyn-filwyr.



Wrth wraidd popeth a wnawn y mae ymrwymiad i awdurdodi cyn-filwyr, rhoi'r adnoddau, cefnogaeth a chyfleoedd maent eu hangen i integreiddio mewn cymdeithas eto. Nid ffordd o ddarparu lle i aros yn unig ydi ein gwasanaeth, ond mae'n ymwneud â chynnig llwybr i annibyniaeth, hyder a dyfodol mwy disglair i gyn-filwyr digartref Cymru.



# 5. EIN PARTNERIAD

## FIGHTING WITH PRIDE

**Fighting With Pride – Yr Elusen Filwrol LHDT.**

Hyd at rŵan, mae yna bedwar cyn-filwr yng ngogledd Cymru wedi dweud wrtha i eu bod nhw'n LHDT. Rydw i'n cysylltu â nhw'n rheolaidd. Mae'r oedrannau'n amrywio o 88 i 45 mlwydd oed. Does gan un o'r cyn-filwyr ddim gwybodaeth am TG ac rydym ni'n cael galwadau ffôn wythnosol ac rydw i'n anfon gwybodaeth ati yn y post er mwyn ei diweddaru.

Mae'n well gan un arall o fy nghyn-filwyr siarad ar TEAMS ac mae hyn yn gweithio'n dda iddo gan ei fod o'n dymuno diffodd ei gamera. Rydw i'n diweddaru fy nghyn-filwyr am bopeth sy'n mynd ymlaen yn eu hardal ac rydw i wedi bod yn eu hannog i fynychu 'Canolbwynt Lluoedd Arfog Wrecsam' sydd newydd ei ffurfio. Dwi'n gwybod bod yna fwy o gyn-filwyr LHDT allan yna rydw i'n chwilio amdanynt ac yn credu pan fydd mwy o wybodaeth ar gael ynglŷn ag iawndal ariannol, yna gobeithio y daw mwy o gyn-filwyr ymlaen. Gyda chefnogaeth asiantaethau ac elusennau yng ngogledd Cymru, rwy'n hyderus y gallwn ni ddod o hyd iddynt gyda'n gilydd. Mae ein helusen hefyd yn cefnogi personél a theuluoedd sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, felly rydw i'n awyddus i gysylltu â lluoedd arferol, wrth gefn a chadetiaid.



Mae'r iawndaliadau o adroddiad Arglwydd Etherton wedi dechrau'n ddiweddar a bu fy ngwraig a minnau mewn seremoni yn Guildford (Cartref WRAC) yn ddiweddar i gael ein berets, bathodynnau cap a phin enfys. Mae yna hefyd gyfnod o ymgynghori ar gyfer Cofeb y Lluoedd Arfog LHDT a fydd yn cael ei gyflwyno yn y Goedardd Genedlaethol mewn tua 12 mis. Mae hi'n gyfnod prysur iawn ac mae OPERATION CRESCENDO yn gweithio i gael iawndal ariannol a chael gwared ar y cap £50 miliwn. Byddwn yn parhau i ymladd gyda balchder nes bod yr holl iawndal wedi'u cwblhau.

# 5. EIN PARTNERIAD

## THE POPPY FACTORY

**The Poppy Factory: Helping veterans in North Wales on their journey into employment**

Yn The Poppy Factory rydym ni'n falch o gynnig gwaith i gyn-filwyr sydd â chyflyrau iechyd ar draws gogledd Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi cefnogi 29 o gyn-filwyr newydd i ddechrau 17 o swyddi ar draws ystod eang o ddiwydiannau yn yr ardal. Mae Megan Jones, ein Hymgynghorydd Cyflogaeth ar gyfer Gogledd Cymru, wrthi'n helpu 25 o gyn-filwyr ac yn datblygu cysylltiadau gyda sefydliadau partner, gyda'r nod o gynyddu atgyfeiriadau i'n gwasanaethau a rhoi hwb i gymuned y Lluoedd Arfog.




Gall cefnogaeth gyflogaeth un-i-un, rhad ac am ddim The Poppy Factory gynnwys cynllunio gyrfaoedd, helpu i chwilio am swyddi, llenwi ffurflenni cais a pharatoi ar gyfer cyfweliadau, mynediad at hyfforddiant ac archwilio cyfleoedd ar gyfer cymwysterau neu drwyddedau. Rydym ni'n arbenigo mewn cefnogi cyn-filwyr sydd ag anghenion iechyd meddyliol neu gorfforol, gan sicrhau bod cyflogaeth yn gweithio iddyn nhw a'u sefyllfaoedd, cydnabod bod hyn yn fwy tebygol o arwain at gadw swyddi a lles cadarnhaol.

Unwaith y mae The Poppy Factory yn cefnogi cyn-filwyr i mewn i gyflogaeth, rydym ni hefyd yn cynnig cefnogaeth 12 mis mewn gwaith, gan weithio gyda chyflogwyr i helpu i ddatrys unrhyw broblemau. Os ydych chi wedi gwasanaethu am un diwrnod neu fwy yn y Lluoedd Arfog, lluoedd arferol neu wrth gefn, a'ch bod o'r farn bod gennych gyflwr iechyd, fe allwn ni eich helpu chi.

**Atgyfeirio neu gofrestru**

Gall gweithwyr proffesiynol sydd yn gweithio gyda chyn-filwyr wneud atgyfeiriad ar-lein poppyfactory.org/partnerregister. Fel arall, cysylltwch â Meg i archwilio cyfleoedd partneriaeth yn meganj@poppyfactory.org

**Cefnogaeth i aelodau'r teulu**
Mae The Poppy Factory hefyd yn cynnig cyflogaeth i aelodau'r teulu yng nghymuned y Lluoedd Arfog. I gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaeth, ewch i poppyfactory.org/families

*Tîm The Poppy Factory*

## 5. EIN PARTNERIAD

### Cymdeithas y Milwyr, Morwyr, Awyrenwyr a'u Teuluoedd

Mae **SSAFA**, **elusen y Lluoedd Arfog** wedi bod yn darparu cefnogaeth gydol oes i'n Lluoedd a'u teuluoedd ers 1885. Y llynedd yng Nghymru, fe wnaeth ein timau o wirfoddolwyr a'n gweithwyr helpu mwy na 1000 o bobl mewn angen, o gyn-filwyr yn yr Ail Ryfel Byd i rai sydd wedi gwasanaethu mewn brwydrau mwy diweddar neu rai sy'n dal i wasanaethu ar hyn o bryd, a'u teuluoedd.

**Menter newydd -** Ym mis Ionawr eleni, gofynnwyd i Dîm SSAFA Cymru gymryd y ddarpariaeth gwasanaeth yma gam ymhellach, a chyflwyno Prosiect Cyflawni Rhwydwaith (NDP).

**Y Broses Gwaith Achos -** Yn hanesyddol roedd gwasanaeth lles SSAFA yn cael ei arwain yn llwyr gan wirfoddolwyr gyda rhwydwaith o ganghennau ar draws y wlad yn cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.
O dan yr NDP, mae'r gwasanaeth yma bellach yn cael ei arwain gan dîm proffesiynol mewn Swyddfa Ranbarthol sy'n rheoli Gwaith Achos o'r cyfnod brysbennu neu atgyfeiriad cychwynnol drwodd i gwblhau'r achos. Fe fydd y Swyddfa Ranbarthol hefyd yn gweithredu fel un pwynt mynediad ar gyfer rhwydwaith y Lluoedd Arfog a sefydliadau cefnogi eraill yn y gymuned. Mae gwirfoddoli i SSAFA yn dal i fod yn rhan o'r broses hon ac rydym ni'n ymfalchïo ein bod yn gweithio gyda'n Gwirfoddolwyr i gwblhau elfennau o'n proses gwaith achos drwy ymweld â'n cleientiaid.

**Adborth Buddiolwyr**
*"Fe wnaeth SSAFA fwy nag oeddwn i'n ei feddwl oedd yn bosibl yn codi'r arian ar gyfer fy mwyler newydd, felly diolch yn fawr. Rŵan, dim ond gwasgu'r botwm ydw i ac mae gen i ddŵr poeth, mae'r rheiddiaduron mor boeth rŵan. Roedd hi hefyd yn annisgwyl y byddwn ni'n cael RCP gan y Llynges Frenhinol. Diolch yn fawr i chi a'r gweithiwr achos."*

*"Fe gymerodd SSAFA y baich oddi ar fy ysgwyddau, mae gen i le newydd i fyw, dodrefn newydd ac rydw i'n dechrau swydd newydd ar 9 Medi fel gweithiwr cefnogi yn helpu pobl sydd yn yr un sefyllfa ag yr oeddwn i. Allai pethau ddim mynd yn well i mi ac allwn i ddim fod wedi gwneud hynny heb SSAFA, diolch."*



**Cysylltu -** Os hoffech chi ragor o wybodaeth neu os hoffech chi wneud atgyfeiriad, cysylltwch â'n Tîm ymroddedig.
Rheolwr Gweithrediadau Rhanbarthol – Steve Boswell Stephen.boswell@ssafa.org.uk
Swyddfa Rhanbarth Cymru E-bost: wales.region@ssafa.org.uk neu ffoniwch: 029 2294
1004.
Rydym ar gael dydd Llun – dydd Gwener 9:30am - 5.00pm (ac eithrio Gwyliau Banc)



# 6. Y BWRDD IECHYD

## 6.1 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

Ar ôl cael cyllid gan Ymddiriedolaeth Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) wedi sefydlu Cydweithredfa Gofal Iechyd Cyn-filwyr Gogledd Cymru.  Drwy waith y rhaglen hon, a nifer o brosiectau cysylltiedig, mae Arweinydd Cydweithredfa Gofal Iechyd Cyn-filwyr a Chyfamod y Lluoedd Arfog wedi cyflawni nifer o lwyddiannau ers cael ei benodi ym mis Ebrill 2022.




**Cyfleu Gwybodaeth**

Mae BIPBC wedi sefydlu Canolbwynt ymroddedig (mewnol) o wybodaeth i'w tua 19,000 o aelodau staff, gan amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i Gymuned y Lluoedd Arfog, er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais o ran mynediad at Ofal Iechyd.  Yn yr un modd, mae BIPBC wedi cyfleu gwybodaeth hollbwysig i gleifion yng ngogledd Cymru mewn perthynas â chael mynediad at wasanaethau gofal iechyd priodol i gyn-filwyr. Yn ychwanegol, mae BIPBC yn cefnogi cyfathrebu dwy ffordd effeithiol gyda chleifion a staff drwy greu dau gyfeiriad e-bost dynodedig: BCU.VeteranHealthcareCollaborative@wales.nhs.uk a BCU.ArmedForcesChampion@wales.nhs.uk




**Adnabod Cymuned ein Lluoedd Arfog  (AFC) - Gweithlu**

Mewn ymdrechion i sicrhau gellir cynllunio gweithlu'n effeithlon, mae BIPBC yn defnyddio proses barhaus o adnabod personél Cyfamod y Lluoedd Arfog a chofnodi "statws Cyfamod y Lluoedd Arfog" ar system gweithlu'r sefydliad, Cofnod Electronig Staff. Trwy gofnodi manylion o'r fath, mae BIPBC wedi sefydlu rhwydwaith ymroddedig o Luoedd Arfog sy'n cefnogi codi ymwybyddiaeth o ddyletswyddau'r bwrdd iechyd o dan Gyfamod y Lluoedd Arfog.  At hynny, mae'n cydnabod ac yn cyfathrebu am anghydraddoldeb iechyd sy'n gysylltiedig â Chymuned y Lluoedd Arfog, ac yn amlinellu'r gwasanaethau sydd ar gael yn fewnol BIPBC ac o fewn y sector gwirfoddoli/cyhoeddus, i gynorthwyo i fynd i'r afael ag anfantais posibl y mae Cymuned y Lluoedd Arfog yn ei wynebu. Mae BIPBC hefyd yn ceisio cefnogaeth y gweithlu ehangach i sefydlu Cefnogwr Gwasanaeth y Lluoedd Arfog ac yn cynnig pecyn addysg a hyfforddiant i hwyluso cefnogaeth gyfannol i Gymuned y Lluoedd Arfog (staff a chleifion).

# 6. Y BWRDD IECHYD

## 6.1 BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR

### Achrediad VCHA

Mae BIPBC yn ceisio bod yn esiampl o arfer gorau ar gyfer Cymuned y Lluoedd Arfog, ac mae'n gweithio tuag at achrediad "Veteran Aware" gan Gynghrair Gofal Iechyd Cyfamod Cyn-filwyr (VCHA). Mae hyn yn golygu y bydd BIPBC yn sicrhau bod holl gleifion Cymuned y Lluoedd Arfog (y rhai sydd wrthi'n gweithio, neu sydd wedi gweithio yn y fyddin) a'u teuluoedd ar draws gogledd Cymru, yn cael eu hadnabod er mwyn sicrhau nad ydynt dan anfantais tra'n cael gafael ar wasanaethau gofal iechyd yn y GIG, a lle y bo'n bosibl, eu bod yn derbyn gofal sydd wedi'i bersonoleiddio ac sydd yn gwella canlyniadau i gleifion.
Er mwyn adnabod cleifion Cymuned y Lluoedd Arfog yn llwyddiannus, mae BIPBC wedi llunio "Rhaglen y Pabi", fe fydd y rhaglen yma'n cofnodi statws Cymuned y Lluoedd Arfog cleifion sydd wedi dod mewn i leoliad ysbyty acíwt a'u holrhain drwy eu siwrnai Gofal Eilaidd gan alluogi i ymarferwyr eu hadolygu'n gyfannol a gwneud atgyfeiriadau priodol ymlaen i Sefydliadau ac Elusennau Cefnogaeth Cyn-filwyr allanol.



### Cynlluniau at y dyfodol

Mae BIPBC yn ymgynghori â Defence Medical Welfare Service (DMWS) a The Poppy Factory i hyrwyddo swyddi Swyddog Lles DMWS yn BIPBC a swydd "Llywiwr" penodol a fydd yn cynorthwyo ag atgyfeiriadau cymhleth i sefydliadau a thrydydd partïon cyn-filwyr.
Fe ddaw BIPBC ynghyd ar Ddiwrnod y Cadoediad am gyfnod o fyfyrio, ac i dalu teyrnged i'r rhai a dalodd y pris eithaf yn ystod eu Gwasanaeth, gan aberthu eu bywydau dros ein gwlad. Fe fydd BIPBC yn cynnal nifer o Wasanaethau Cofio ar safleoedd Ysbyty Acíwt ac yn y carchar lleol (Carchar Ei Fawrhydi Y Berwyn), i ddangos ymrwymiad a chefnogaeth barhaus y Bwrdd Iechyd i Gymuned y Lluoedd Arfog.

# 7. SWYDDOG CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG

## 7.1 GWERTHUSO HYFFORDDIANT

Mae'r rhaglen hyfforddiant mewnol wedi cael ei gynnal ers nifer o flynyddoedd ac mae ei lwyddiant wedi cael ei fesur drwy sawl ffactor a dangosyddion allweddol.

**Amcanion a pherthnasedd clir**

- Ein hamcanion yw cynyddu ymwybyddiaeth o'r Cyfamod a'r ddeddfwriaeth newydd.
- Arddangos perthnasedd y Cyfamod a'r ddeddfwriaeth i'r swyddi gwahanol yn yr Awdurdodau Lleol.

**Ymgysylltu â gweithwyr**

- Mae cyfraddau presenoldeb a chwblhau wedi bod yn gymharol isel o'i gymharu â nifer y gweithwyr sydd gan yr Awdurdodau ar draws y rhanbarth.
- Mae cyfranogiad yn ystod y sesiynau wedi bod yn uchel gyda nifer o'r rhai'n bresennol yn cynnig adborth cefnogol sydd yn berthnasol iddyn nhw a'u swyddi.

**Sgiliau a chadw gwybodaeth**

- Ni fu modd i ni ddangos gwybodaeth ar gadw gwybodaeth hyd yn hyn, serch hynny mae asesiadau ar ôl hyfforddiant wedi dangos bod gwybodaeth yn cael ei gadw sy'n gysylltiedig â'r Cyfamod.

**Perfformiad a Gwelliant**

- Er nad oes yna fatrics perfformiad unigol ar waith, rydym wedi cael gwybodaeth drwy adborth bod gallu darparu cefnogaeth fwy cyfannol bellach ar waith ac mae atgyfeiriadau'n digwydd yn fwy cyflym, ac i'r sefydliadau cywir.
- Nid oes tystiolaeth sylweddol wedi cael ei gasglu o effaith sefydliadol y cafodd yr hyfforddiant.

**Adborth Gweithwyr**

- Ar ôl pob hyfforddiant y mae rhywun yn ei gael maen nhw'n cael dogfen adborth - mae mwyafrif yr adborth yn foddhaol.
- Mae nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi cael eu gwneud ac mae bron pob un wedi cael eu gweithredu, cyfyngiadau technolegol ydi'r rheswm dros beidio â gweithredu'r rhai eraill.

**Effaith Hirdymor**

- Nid ydi cadw gwybodaeth wedi cael ei fesur, serch hynny mae adborth wedi dangos gallu i wneud tasgau/swyddi yn fwy effeithiol gyda'r wybodaeth a gasglwyd.
- Mae'r hyfforddiant yn parhau i gynnig alinio diwylliannol cryf sydd yn atgyfnerthu gwerthoedd yr Awdurdod a rhai'r Cyfamod a thegwch yn ein cymdeithas.

**Elw ar Fuddsoddiad**

- Mae cost v mantais wedi arwain at elw da o ran manteision cynhyrchiant, llai o gostau gweithredol yn sgil atgyfeiriadau effeithiol a gwella boddhad cwsmeriaid.

**Cefnogaeth rheolwyr a staff**

- Mae arweinwyr ar draws y rhanbarth wedi, ac yn parhau i gefnogi'r rhaglen hyfforddi. Mae Penaethiaid Gwasanaeth a rheolwyr yn annog hyfforddiant i'w staff ac yn ei dro mae hyn wedi sicrhau cefnogaeth gweithwyr a phresenoldeb mewn hyfforddiant.

Mae gallu gwerthuso'r ffactorau yma'n gyfannol wedi rhoi dangosyddion cryf i ni o lwyddiant y rhaglen hyfforddiant mewnol.

# 7. SWYDDOG CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG

## 7.1 DATA HYFFORDDIANT


### Presenoldeb hyfforddiant ac adborth rhwng 2018 a 2023




2. Please rate your understanding of the Armed Forces Covenant prior to the session? 1 = Not at all 5 = A lot

More Details


2.23
Average Rating



7. Please rate your understanding of the Armed Forces Community after the session? 1 = Not at all 5 = A good amount

More Details

4.42
Average Rating



| | |
|---|---|
| anonymous | AFC Duty |
| anonymous | power point, most informative |
| anonymous | All of it - have worked with Armed forces but always a good idea to refresh and get updates |
| anonymous | signposting |
| anonymous | all of it |
| anonymous | It was all interesting. Was good to see all the different ways our Armed Forces can be helped and to have some contact details |
| anonymous | Having a definition |
| anonymous | Unable to hear the training for first 15 mins,, Although I ohave re-read through the slides and now realise how much we can support the Armed Forces |
| anonymous | More aware of who to include when considering customer needs |
| anonymous | How we can all work together |
| anonymous | Links to agencies for support and information |
| anonymous | Information on the various agencies to support forces personnel and veterans |
| anonymous | helplines and charities. to signpost onwards |
| anonymous | All of it, a greater understanding on a topic I was all to unfamiliar with |
| anonymous | All as didn't know about it. |
| anonymous | Who it affects |
| anonymous | Provided knowledge about the covenant and information re resources that will aid my work |

# 7. SWYDDOG CYSWLLT Y LLUOEDD ARFOG

## 7.1 DATA HYFFORDDIANT

### Effaith hyfforddiant rhwng 2018 a 2023

**Ydych chi'n aelod o Gumuned y Lluoedd Arfog?**

| | 2018 | 2023 |
|---|---|---|
| Ydw | 6% | 10% |
| Nac ydw | 94% | 90% |

**Ydych chi'n gofyn y cwestiwn?**

| | 2018 | 2023 |
|---|---|---|
| Ydw | 1% | 45% |
| Nac ydw | 99% | 55% |

**Ydych chi'n ymwybodol o GIG Gymru i Gyn-filwyr**

| | 2018 | 2023 |
|---|---|---|
| Ydw | 3% | 11% |
| Nac ydw | 97% | 89% |

**Ydych chi'n ymwybodol o Borth Cyn-filwyr**

| | 2018 | 2023 |
|---|---|---|
| Ydw | 8% | 10% |
| Nac ydw | 92% | 90% |

**A Fyddech chi'n gofyn y cwestiwn ar ôl yr hyfforddiant yma?**

| | 2018 | 2023 |
|---|---|---|
| Byddwn | | 85% |
| Na fyddwn | | 15% |